| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Chwefror, 2013** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cyfarwyddwr Moderneiddio a Lles** |

**Teitl: Adborth o'r cyfarfod gydag Uwch Swyddogion PBC ar benderfyniadau "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid"**

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Adborth o'r cyfarfod gydag Uwch Swyddogion PBC ar 8 Chwefror, 2013 ac argymhellion yn codi o'r cyfarfod hwnnw.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 5 Chwefror, cytunwyd y dylai dirprwyaeth o 10 aelod gyfarfod gyda chynrychiolwyr uwch swyddogion PBC i drafod pryderon sy'n dal ar fod ac sy'n codi o benderfyniadau Bwrdd PBC ar 18 Ionawr ynghylch cynigion "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid". Mae'r adroddiad hwn yn adrodd nôl o'r cyfarfod hwnnw ac yn cynnig argymhellion sy'n codi o'r cyfarfod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y cyngor

3.1 Yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â:-

3.1.1 sicrwydd ar ddyfodol Ysbyty Glan Clwyd
3.1.2 cytundeb i weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun cludiant i liniaru ar effaith y newidiadau arfaethedig i'r GIG ar y cyhoedd
3.1.3 cytundeb i gynnal modelu o ganlyniadau ariannol y newidiadau arfaethedig i'r GIG ar yr awdurdod lleol, yn enwedig Gwasanaethau Gofal Gwell a gwasanaethau i ofalwyr
3.1.4 cytundeb i ddefnyddio'r Fforwm Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sirol fel y mecanwaith i sicrhau bod trafodaethau ac adrodd nôl rheolaidd yn digwydd, gan gynnwys gwaith ar y materion a glustnodwyd ar gyfer sylw pellach yn 3.1.2 a 3.1.3 uchod

3.2 Yn mynegi ei bryderon mewn perthynas â system cyllid cyfalaf y GIG sy'n gadael cymunedau lleol heb sicrwydd y bydd y gwasanaethau newydd a addawyd yn cael eu gwireddu

3.3 Yn cytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd yn atgyfnerthu'r angen am benderfyniadau cynnar ar ddyraniad cyfalaf Llywodraeth Cymru i'r cynlluniau yn Sir Ddinbych

3.4 Yng ngoleuni pryder ac ansicrwydd parhaus ymhlith y cyhoedd, a nifer y materion sydd heb eu datrys, yn galw ar y Cyngor Iechyd Cymuned i atgyfeirio'r cynigion i'r Gweinidog

3.5 Yn galw ar y Gweinidog i ystyried pryderon Cyngor Sir Ddinbych cyn cymeradwyo'r cynigion

## 4. Manylion yr Adroddiad

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Chwefror, trefnwyd cyfarfod gydag Uwch Swyddogion PBC ar 8 Chwefror. Mynychwyd y cyfarfod hwn gan Mary Burrow, Prif Weithredwr a 3 cyd-weithiwr. Roedd pob un o'r deg aelod etholedig a enwebwyd gan y cyngor hefyd yn bresennol ynghyd â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych.

Mae nodyn o'r cyfarfod, sydd wedi'i rannu ymhlith y 10 aelod, ynghlwm fel Atodiad 1.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gweithio agos ac integredig gyda gwasanaethau iechyd, yn enwedig ar lefel lleol, yn ffurfio rhan allweddol o waith y Cyngor i ymateb i anghenion bobl fregus. Mae'r Cynllun MAWR hefyd yn gosod amcanion ar gyfer cyd-weithio effeithiol i gefnogi teuluoedd.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae datganiadau oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blaenorol i'r Cyngor, a datganiad y Prif Swyddog Ariannol, yn parhau i fod yn berthnasol. Dylai'r gwaith y cytunwyd arno i fodelu effaith ariannol, er enghraifft, y Gwasanaeth Gofal Gwell, a gwaith ar y cyd ar gynllun cludiant, helpu i liniaru unrhyw ganlyniadau negyddol newidiadau'r GIG ar awdurdodau lleol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid sicrhau bod y templed EqIA a gwblhawyd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blaenorol i'r cyngor, mae PBC wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar eu cynigion. Dylai ymrwymiad i ddatblygu cynllun cludiant ar y cyd ac i gynnal modelu ariannol hefyd helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Phwyllgorau Craffu ac eraill?

Mae'r 10 aelod etholedig a fynychodd y cyfarfod ar 8 Chwefror wedi rhoi sylwadau ar y nodyn o'r cyfarfod ac mae consensws ei fod yn gywir, er bod un manylyn yn cael ei wirio gyda PBC (ble fydd gwasanaethau llawdriniaeth gyffredinol a brys yn cael eu lleoli). Dosbarthwyd yr argymhellion o fewn yr adroddiad hwn hefyd i'r 10 aelod er mwyn iddynt gael cyfle i gynnig sylwadau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae Datganiad y Prif Swyddog Ariannol a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 5 Chwefror yn parhau i fod yn berthnasol. Er nad oes unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol i Gyngor Sir Ddinbych yn codi o'r adroddiad hwn, mae angen i aelodau fod yn ymwybodol bod goblygiadau cost yn debygol wrth symud ymlaen yn nhermau "symud costau" a/neu'r posibiliad y bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu mwy o arian cyllideb i BIPBC ar draul llywodraeth leol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

## 10. Beth yw'r risgiau ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Roedd y risgiau o fewn y cynigion newid gwasanaeth GIG cyffredinol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blaenorol i'r Sir ar 5 Chwefror.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

S111 Deddf Llywodraeth Leol 1972